

## Cyhoeddiadau'r Fro

- Sul – 5<sup>ed</sup>**
- **Oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 ac yn Groes am 11.00** o dan arweiniad Rhodri. Er mwyn sicrhau lle yng Nghefn Berain, rhowch eich enw i Meryl neu Eirian ([post@brynamel.co.uk](mailto:post@brynamel.co.uk) / [eirianj123@gmail.com](mailto:eirianj123@gmail.com)) erbyn nos Wener (3<sup>ydd</sup>), os gwelwch yn dda. (Nid oes angen rhoi enwau ar gyfer yr oedfa yn Groes.)
  - **Oedfa yn Llanfair am 9.30 ac yn Llansannan am 11.00** o dan arweiniad Celfyn Williams. (Nid oes angen enwau ymlaen llaw.)
  - **Oedfa yn Saron am 10.00** o dan arweiniad y Parch. Goronwy Prys Owen. Enwau i Helen (550327 / 07867 984373) erbyn nos Wener (3<sup>ydd</sup>), os gwelwch yn dda.
  - **NI FYDD Oedfa i'r Fro ar YouTube.**
- Sul – 12<sup>fed</sup>**
- **Oedfa yn Llansannan am 9.30 ac yn Llanfair am 11.00** o dan ofal y Parch. Aneurin Owen. (Nid oes angen enwau ymlaen llaw.)
  - **Oedfa yn Henllan am 9.30, ac ar y Cae Chwarae yn Llanefydd am 11.00** (os bydd y tywydd yn ffafriol). Y ddwy oedfa o dan ofal Gwion Dafydd. Rhowch eich enw ymlaen llaw ar gyfer yr oedfa yn Henllan i Rhian ([rhianfachgau@yahoo.com](mailto:rhianfachgau@yahoo.com)) neu Alys ([alysowen1@hotmail.co.uk](mailto:alysowen1@hotmail.co.uk)), os gwelwch yn dda, ac ar gyfer yr oedfa yn Llanefydd, rhowch eich enw i Mair B. Williams erbyn hanner dydd ar y Sadwrn blaenorol, os gwelwch yn dda.
  - **Oedfa yn Saron am 10.00** o dan ofal Rhodri. Enwau i Helen (550327 / 07867 984373) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.
- Sul – 19<sup>eg</sup>**
- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 ac yn Llansannan am 11.00** o dan arweiniad Rhodri. Ar gyfer oedfa Cefn Meiriadog, rhowch eich enw i Haf erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.
  - **Oedfa yn Groes am 9.30 ac yng Nghefn Berain am 11.00** o dan arweiniad y Parch. David Owens. Er mwyn sicrhau lle yng Nghefn Berain, rhowch eich enw i Meryl neu Eirian ([post@brynamel.co.uk](mailto:post@brynamel.co.uk) / [eirianj123@gmail.com](mailto:eirianj123@gmail.com)) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda. (Nid oes angen rhoi enwau ar gyfer yr oedfa yn Groes.)
  - **Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00.** Enwau i Helen (550327 / 07867 984373) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (15<sup>fed</sup>), os gwelwch yn dda.

# Llais Bro Aled



**Dydd Sul, 5 Medi 2021**

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Mae dechrau mis Medi fel arfer yn amser digon cyffrous gyda phlant yn ôl yn yr ysgol, a nifer o weithgareddau a chymdeithasau yn ail gychwyn. Ond eleni, fel y llynedd, mae'n siŵr y byddwn yn parhau i orfod dygymod â chwithdod ac ansefydlogrwydd effeithiau COVID, gan fod yn amyneddgar ac yn ddoeth gyda'n penderfyniadau a'n disgwyliadau. Er y bydd oedfaon yn cael eu cynnal yn y rhan fwyaf o'n capeli o fis Medi ymlaen, amser a ddengys beth fydd y patrwm tymor hir, ac yn wir pa weithgareddau eraill y byddwn yn gallu eu hailgychwyn. Oherwydd y bydd oedfaon yn y cawd bellach yn rheolaidd ar y Sul, ni fyddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau ar-lein bob wythnos, ond bwriadwn barhau i ddarparu CD a chopi papur i unrhyw un sy'n dymuno ac sy'n methu dod i'r capel. Mae fy nyled yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd i'n galluogi i ddarparu addoliad digidol rheolaidd ers mis Mawrth 2020, a diolch i bawb am eich ymatebion a'ch gwerthfawrogiad hefyd. Fe fyddwn yn darlledu gwasanaethau ar-lein yn achlysurol, a gweddiwn y byddwn yn parhau i brofi bendith trwy'r cyfrwng hwn i'r dyfodol.

Er bod yr holl ansicrwydd yn peri annifyrrwch, cofiwn fod peidio gwybod beth sydd o'n blaenau yn rhan o fod yn ddisgybl i Iesu Grist. Wedi'r atgyfodiad roedd y disgyblion yn eiddgar i wybod mwy am amserlen Duw, ac mae ateb Iesu iddynt yn dweud cyfrolau: "Arglwydd, ai dyma pryd rwyf ti'n mynd i ryddhau Israel a'i gwneud yn wlad annibynnol unwaith eto?" Ateb Iesu oedd: "Duw sy'n penderfynu pethau felly. Does dim rhaid i chi wybod beth ydy'r amserlen mae Duw wedi'i threfnu. (Actau 1:6-7 beibl.net)

Mewn unrhyw sefyllfa o ddryswch, y cyngor doethaf yw adeiladu ar y ffactorau hynny y gallwn eu gwybod i sicrwydd. Dyna pam fod meddygon yn cynnal profion i geisio dadansoddi beth sy'n digwydd i'n cyrff pan fyddwn yn sâl. Fel yr oedd y disgyblion cyntaf yn cael eu hannog i ymddiried yn naioni ac amseru'r Arglwydd, yr ydym ninnau heddiw i ddysgu'r un wers. I'r Cristion, Gair Duw yw'r canllaw sy'n ein hatgoffa o'r hyn sy'n wir, gan ein cyfeirio at yr Un y gallwn ddiybnnu arno, yn arbennig yn ein gwendid. Yn union wedi i Iesu ddweud wrth ei disgyblion nad oedd angen iddynt wybod am amserlen Duw, mae'n rhoi addewid iddynt: "Ond bydd yr Ysbryd Glân yn disgyn arnoch chi, ac yn rhoi nerth i chi ddweud amdana i wrth bawb – yn Jerwsalem a Jwdea, yn Samaria, a drwy'r byd i gyd." (Actau 1:8 beibl.net)

Os ydym yn barod i ymddiried yng Nghrist, gallwn ninnau hefyd dderbyn o'i ras a'i faddeuant heddiw. A beth bynnag a ddaw i'n rhan yn y dyfodol, gallwn fod yn hyderus o'r Ysbryd Glân i'n nerthu a'n harwain, a phresenoldeb parhaus ein Ceidwad i'n cynnal trwy'r cyfan.

Rhodri

## *Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion*

Gyda thristwch ar ddechrau gwyliau'r haf y daeth y newyddion am farwolaeth Gwenllian Morris Jones (Henllan), un a fu'n aelod ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Henllan ac a wasanaethodd yno fel blaenor am dros 25 mlynedd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam a nain driw a charedig. Trist oeddem hefyd o glywed am farwolaeth William T. Williams (Llanfair), cymeriad hoffus a hwyliog, â'i deulu'n bopeth iddo. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i ferch, Gwenda Evans (Llansannan) a hefyd ei frawd, Iorwerth Williams (Hiraethog), a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Ac yna fe ddaeth y newyddion trist y penwythnos diwethaf am ddamwain angeuol Heddwyn Davies (Llansannan), cymeriad bywiog a hwyliog arall, ac yn ergyd fawr i'w deulu yntau. Cofiwn yn arbennig am Margaret ei briod, ac â'r plant – Gerallt, Llion a Marian, a gweddill y teulu yn eu braw, eu galar a'u tristwch. Yr un yw'n cydymdeimlad hefyd ag Eifion Howatson (Llanefydd) a'r teulu i gyd ym marwolaeth ei fam, Myfanwy Howatson. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod dros bob un ohonoch yn eich galar a'ch hiraeth, ac y byddwch ynghanol eich tristwch yn profi nerth a chariad Duw yn gysur ac yn gymorth i chi.

Cofiwn hefyd am y cleifion yn ein plith. Mae Heather Jones (Llansannan), Elwyn Roberts (Llansannan), a Dilys Jones (Nantglyn) yn parhau i gael gofal mewn gwahanol ysbytai, ond da clywed bod Morfudd Jones (Llanefydd) yn gobeithio cael dod adref o'r ysbyty yn y dyddiau nesaf. Treuliodd Jeff Thomas (Llanfair) a Doreen Evans (Llansannan) beth amser yn yr ysbyty yn ystod yr haf, a gwyddom fod eraill o'n plith wedi cael gofal yno yn ystod yr wythnosau diwethaf hefyd. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i chi i gyd ac i bawb arall sydd heb fod yn dda eich iechyd y dyddiau hyn.

Mae eraill wedi gorfod wynebu profiadau anodd dros yr haf. Cofiwn amdanoch chithau hefyd yn ein gweddïau a hyderwn y byddwch yn profi gofal a chariad Duw yn eich amgylchynu trwy'r cyfan oll.

Ar nodyn o lawenydd, hyfryd yw cael llongyfarch Gwion a Sarah Dafydd (Hiraethog) ar enedigaeth mab, Osian Elias Gwion, brawd bach i Buddug. Diolchwn gyda hwy am ddaioni Duw tuag atynt a dymunwn Ei fendith arnyn nhw fel teulu.

Dymunwn bob hapusrwydd a bendithion lu i Mari Jones (Henllan) a Danny ar achlysur eu priodas y penwythnos hwn.

Dymuniadau gorau hefyd i Hafwen Roberts (Henllan) sy'n dathlu penblwydd arbennig yn ystod y dyddiau nesaf!

Bu i Gymdeithasfa'r Gogledd yn ddiweddar gydnabod cyfraniad gwerthfawr blaenoriaid o'r Ofalaeth hon sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth yn eu

heglwysi ac i'r Henaduriaeth, sef Mary Williams (Llanfair) sydd wedi rhoi dros 40 mlynedd o wasanaeth, ac Arthur Pierce (sy'n aelod yng Nghfefn Meiriadog ac a oedd yn flaenor yng Nghilcain cyn hynny) sydd wedi rhoi 50 mlynedd o wasanaeth ers ei ordeinio. Bu i'r Gymdeithasfa hefyd gydnabod gwasanaeth y diweddar Glyn Williams (Cefn Meiriadog) oedd wedi rhoi 60 mlynedd o wasanaeth fel blaenor. Diolchwn ninnau'n gywir iawn iddynt am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd ac estynnwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau iddynt. *(Os ydw i wedi gadael enw rhywun allan o'r cyfarchion uchod, rwy'n ymddiheuro'n fawr. Os felly, plis wnewch chi adael i un ohonom wybod. Diolch.)*

## *Cwestiwn ac Ateb*

Rydan ni ers dros flwyddyn bellach wedi bod yn darparu 'Cwestiwn ac Ateb' (ar ebost neu ar bapur) i bawb sydd wedi gofyn am gopi. Taflen A4 ydy hi, un ochr yn aml, sy'n rhoi'r ateb Beiblaidd i amrywiol gwestiynau sy'n codi. Mae'n cael ei anfon yn wythnosol i bawb sy'n dymuno hynny. Does dim angen i chi ymateb iddynt, er wrth gwrs bod croeso i chi wneud hynny os hoffech drafod y cynnwys ymhellach. Rhai enghreifftiau o'r cwestiynau sydd wedi eu hateb yn ystod y flwyddyn yw:

- Beth mae'n ei olygu bod popeth yn gweithio er daioni?
- Pam bod cymaint o ddrygioni yn y byd?
- Sut fedra i ddysgu ymddiried yn Nuw?
- Beth mae'r Beibl yn ei ddweud am fwydo'r newynog?
- Beth mae'r Beibl yn ei ddweud am ddelio hefo pobl anodd?
- Beth oedd arwyddocâd Iesu yn golchi traed y disgyblion?
- Beth mae 'peidiwch â barnu rhag ichwi gael eich barnu' yn ei olygu?
- Beth mae'n ei olygu fod gras Duw yn ddigon (2 Corinthiaid 12:9)?

Mae'r ymateb, hyd yn hyn, wedi bod yn gadarnhaol, ac os oes mwy ohonoch fyddai'n hoffi derbyn copi yn wythnosol, plis cysylltwch â Mair.

## *Er gwybodaeth*

Gan fy mod yn hunanynysu, ac er diogelwch i chi, ni fyddaf yr wythnos hon yn argraffu nac yn postio copi papur o Llais Bro Aled i'r rhai nad ydynt ar ebost, nac ychwaith yn darparu DVD, CD, na chopi papur o'r oedfa a'r 'Cwestiwn ac Ateb', ond fe wnaif hynny i bawb sy'n arfer eu derbyn mor fuan ag y bydd hi'n ddiogel i mi wneud hynny. Wrth gwrs, yn y cyfamser, os gwyddoch am rywun sy'n arfer derbyn copi o Llais Bro Aled drwy'r post, a chyn belled nad oes gennych chi symptomau o'r feirws, croeso i chi argraffu copi o'r rhifyn hwn iddyn nhw. Ymddiheuriadau am fethu darparu'r adnoddau arferol ar hyn o bryd, ond gobeithio, erbyn canol wythnos nesaf, y bydd modd i mi eu hanfon i chi fel arfer.